

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl: Crëwr Cynnwys (Myfyriwr)

Math o contract/Oriau/CALI: Achlysurol

Cyfradd cyflog: Cyflog Byw Cenedlaethol
(i'w adolygu o bryd i'w gilydd)

Lleoliad: Pob campws yng Nghymru

Yn adrodd wrth: Y Tîm Marchnata

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Oherwydd natur, dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd hon, gall fod yn amodol ar wiriad "Manwl" gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a bydd y Brifysgol yn talu'r gost.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Mae Crewyr Cynnwys (Myfyrwyr) yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau Marchnata a Recriwtio PCYDDS. Bydd deiliad/deiliaid y swydd yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi ein presenoldeb ar y Cyfryngau Cymdeithasol, gan arddangos bywyd myfyrwyr yn PCYDDS. Bydd deiliad/deiliaid y swydd hefyd yn allweddol wrth ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau allgymorth effaith uchel i gefnogi ysgolion neu gysiau unigol ac efallai y gofynnir iddynt ddarparu cymorth gweinyddol ar adegau.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Creu Cynnwys - Cynhyrchu cynnwys llun, fideo ac ysgrifenedig diddorol ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
- Darlunio bywyd, digwyddiadau a phrofiadau campws myfyrwyr o safbwynt myfyriwr;
- Cynrychioli eich cwrs neu faes pwnc wrth greu cynnwys;
- Meddwl am a chyflwyno syniadau am gynnwys creadigol sy'n taro tant â'r gynulleidfa fyfyrwyr;
- Ymgysylltu â'r tueddiadau digidol ac awgrymu ffyrdd arloesol o ymgysylltu â defnyddwyr;
- Gweithio'n agos gyda'r tîm cyfryngau cymdeithasol a chrewyr eraill sy'n fyfyrwyr i sicrhau negeseuon a brandio cyson;
- Sicrhau cyflwyno cynnwys yn amserol sy'n cyd-fynd â dyddiadau ac ymgyrchoedd allweddol y brifysgol;

- Gweithredu fel llysgennad cadarnhaol i'r brifysgol, gan adlewyrchu ei gwerthoedd a'i llais ym mhob cynnwys;
- Cynnal proffesiynoldeb a chadw at ganllawiau brand;
- Darparu mewnwelediadau ar ba gynnwys sy'n taro tant fwyaf gyda myfyrwyr;
- Mynychu a dogfennu digwyddiadau prifysgol, gweithgareddau myfyrwyr, a menter;
- Cipio eiliadau y tu ôl i'r llenni a thystebau myfyrwyr.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyflawni pob cyfrifoldeb perthnasol o ran lechyd a Diogelwch.
- Glynu wrth holl bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol.
- Bod yn barod i addasu i newid a meddu ar y gallu i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd a pherthnasol trwy gymryd cyfrifoldeb priodol am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun.
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a chyflawni dyletswyddau mewn modd moesegol a chyfrifol.
- Gweithredu'n unol â'r safonau a ymgorfforir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol a'r Safonau Iaith Gymraeg arfaethedig (2018 ymlaen).

MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a chymwysterau	{0>a} Addysg at lefel TGAU neu gyfwerth.<0} {0><}0{>b} Rhaid bod yn fyfyrwr cofrestredig ar hyn o bryd yn PCYDDS neu'n gyn-fyfyrwr diweddar	
Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau	c) Gwybodaeth ymarferol eithaf da am eich cwrs a'ch campws a pharodrwydd i ddysgu rhagor am y cyfadranau a'r campysau eraill. d) Gwybodaeth ymarferol dda am fecanweithiau cymorth myfyrwyr yn PCYDDS e) Meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu da gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ag ystod eang o gynulleidfaoedd. f) Sgiliau da o ran rheoli amser a dibynadwyedd g) Gallu i roi sylw i fanylion	a) Profiad blaenorol o weithio'n greadigol b) Profiad o feddalwedd golygu delweddau a fideo c) Gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg – llafar ac ysgrifenedig
Gofynion eraill	h) Myfyriwr cyfredol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i) Dull rhagweithiol a'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth. j) Agwedd bositif at a brwdfrydedd	

	am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'i chysiau k) Yn gallu cynrychioli'r Brifysgol yn broffesiynol ac yn gadarnhaol o ran cyflwyniad ac ymddygiad. l) Dangos parch at ystod amrywiol o bobl a chydabod pwysigrwydd adeiladu perthnasau gwaith cadarn. m) Gallu gweithio'n rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill. n) Cydnabod yr angen am gyfrinachedd priodol a dangos hynny	
--	---	--

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.